# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2020

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddNHAMG@senedd.cymru

---

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

Rhag-gyfarfod anffurfiol - PREIFAT (08.45 - 09.15)

CYFARFOD CYHOEDDUS

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.15)

**2 Sesiwn dystiolaeth: Cyfoeth Naturiol Cymru: effaith cyllideb atodol Llywodraeth Cymru**

(09.15-10.00) (Tudalennau 1 - 8)

Syr David Henshaw, Cadeirydd - Cyfoeth Naturiol Cymru

Clare Pillman, Prif Weithredwr - Cyfoeth Naturiol Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EGWYL (10.00 - 10.05)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 COVID-19: Sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru

(10.05-10.50) (Tudalennau 9 - 19)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## EGWYL (10.50 - 10.55)

## 4 COVID-19: Parhau gyda sesiwn graffu Llywodraeth Cymru

(10.55-11.40)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

## EGWYL ( 11.40 - 11.45)

## 5 COVID-19:Sesiwn dystiolaeth: Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

(11.45 - 12.15) (Tudalennau 20 - 21)

Steve Hughson, Prif Weithredwr - Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Nicola Davies, Is-gadeirydd y Cyngor - Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU 2019-21

(Tudalennau 22 - 34)

Dogfennau atodol:

Ymateb

### 6.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21

(Tudalennau 35 - 45)

Dogfennau atodol:

Ymateb

### 6.3 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - Reoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2018

(Tudalennau 46 - 47)

Dogfennau atodol:

Llythyr

### 6.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - Ailfeddwl am fwyd a diod yng Nghymru

(Tudalen 48)

Dogfennau atodol:

Llythyr

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

PREIFAT (12.15 - 12.45)

8 Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitemau 2, 3, 4 and 5

9 Trafodaeth ar flaenraglen waith y Pwyllgor

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee.**

**Royal Welsh Agricultural Society submission**

**- the immediate problems caused by the pandemic on the RWAS**

The COVID 19 restrictions on large events, mass gatherings and social distancing resulted in the early cancellation of the Royal Welsh Smallholding and Countryside Festival, shortly followed by the cancellation of the main Royal Welsh Show, Royal Welsh Grassland Event and all other events hosted on the showground, (organised by outside organisations). Together with a reduction in Membership fees which would have been paid during Show week, this has resulted in a £4.6 million reduction in income.

The impact is not confined to the Society, as we contribute over £40 million to the economy of Wales, which will simply not happen this year. This impact is most keenly felt within the tourism, leisure and hospitality sectors who benefit greatly from events, particularly in rural Mid Wales.

There is also a significant human impact as the Royal Welsh Show and other events provide the opportunity for the rural community to come together, benefiting mental health and the wellness agenda.

- **any medium and long term implications of the pandemic**

The ban on mass gatherings and lack of any clear thought as to when events such as the Royal Welsh can re-start is causing concern. For the event sector this crisis could extend well into 2021. This puts the Royal Welsh Winter Fair at risk which would create an additional £500k loss of income to the Society and further losses to the wider community and agricultural sector.

There is a need for the current package of support including the Job Retention Scheme to be extended to support sectors such as the Arts, Culture and Events until income re-starts. The impending funding gap will present significant challenges and undoubtedly lead to redundancies and possibly the failure of some organisations and events.

The wider impact on behaviour and finance is yet to be fully understood, but we are alive to the potential for visitors to lack confidence in coming together in large numbers and that companies may decide to re-purpose their funds away from sponsorship and entertainment, further compounding the shorter term impact. There is a need for clear guidance, supported by a marketing strategy to deal with these issues.

**- any ways you have identified to address some of the issues / problems**

The Society has taken advantage of the Government support where available and 80% of the staff is currently furloughed.

Despite the cancellation of the show, we have created a virtual event which will take place over the four days in July. The platform on the Society's website and Social Media will educate the general public about food and farming, share knowledge within the industry, entertain and share nostalgic memories of the show. We are delighted that the Virtual Show will be opened by HRH The Prince of Wales.

Whilst this event will fill a virtual gap, it will never replace the Show and will not create any significant income replacement.

Like many organisations we have embraced the new virtual way of working, which is something which will continue for some post the pandemic.

We continue to support the work of Visit Wales and Events Wales to assist in the shaping of government thinking and formulation of guidance.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/2051/20

Mike Hedges AS
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Mike.Hedges@senedd.wales

29 Mehefin 2020

**Annwyl Mike**

**Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth 2019-21**

Diolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar y Bil Amaethyddiaeth a gyflwynais ger bron y Senedd ar 12 Chwefror. Rwyf wedi ystyried Adroddiad y Pwyllgor ac wedi rhoi fy ymateb i bob un o'r 28 argymhelliad a godwyd yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hynt y Bil i'r Pwyllgor. Ar 13 Mai, cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin lle cafodd gwelliannau eu gwneud i nifer o ddarpariaethau oedd yn ymwneud â Chymru i hwyluso ei weithrediad. Fe welwch fanylion y gwelliannau hyn yn y Memorandwm Ategol o roddwyd ger bron y Senedd ar 11 Mehefin. Derbyniodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai, yr Ail Ddarlleniad ar 10 Mehefin a chadarnhawyd mai dau ddyddiad cyntaf Cyfnod y Pwyllgor fyddai 7 a 9 Gorffennaf.

Yn ystod Ail Ddarlleniad y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi, mynegodd nifer arwyddocaol o Arglwyddi eu pryderon bod diffyg amddiffyniad yn y ddeddfwriaeth i safonau amaethyddol y DU mewn cytundebau masnach yn y dyfodol. Rydym wastad wedi dweud yn glir wrth Lywodraeth y DU na ddylai unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol danseilio ein deddfwriaeth ddomestig na'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

safonau uchel o ran cynnyrch a chynhyrchu yma yng Nghymru.  Ar 12 Mehefin, ysgrifennais at George Eustice AS y DU, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, i esbonio safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch iechyd a lles anifeiliaid a materion Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion allweddol mewn cytundebau masnach yn y dyfodol. Mae diogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid yn faterion sydd wedi'u datganoli ac mae polisi Llywodraeth Cymru'n glir bod yn rhaid cynnal safonau uchel yng Nghymru o ran bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd.

Rwyf wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn nhymor nesa'r Senedd. Gan adeiladu ar sylfeini ein dau ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* a *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, rwyf am gyhoeddi Papur Gwyn yn ddiweddarach eleni fydd yn esbonio cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghymru gan baratoi'r tir ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

Fel y dywedais yn y Memorandwm ar Fil Amaethyddiaeth y DU, mae pwerau'n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru fel mesur dros dro i'n caniatáu i gefnogi ffermwyr yng Nghymru ac i sicrhau bod sectorau amaethyddol ar draws y DU yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl gadael yr UE.  Yn y cyfnod hwn o ansicrwydd digynsail wrth inni barhau i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE gan ddelio yr un pryd ag enbydrwydd y pandemig, mae'r Bil yn gyfrwng deddfwriaethol pwysig i sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd y mae mawr eu hangen ar amaethyddiaeth Cymru.

Yr eiddoch yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

## ATODIAD

## Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth y DU 2019-21 (a gyhoeddwyd ar 14 Mai 2020)

| Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Marchnadoedd bwyd ac amaethyddol (Rhan 2)** | |
| **Argymhelliad 1**<br><br>Rhaid adlewyrchu persbectif Cymru yn y fethodoleg ar gyfer asesu diogelwch *(cyflenwad)* bwyd y DU. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn cyfrannu at ddatblygu'r adroddiad diogelwch (*cyflenwad)* bwyd a sut y bydd barn cynhyrchwyr bwyd a rhanddeiliaid yn cael ei hadlewyrchu. | **Nodwyd**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru law yn llaw â'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, yn parhau i gydweithio'n glos â Defra ar ei hasesiad o ddiogelwch cyflenwad bwyd y DU, gan gyfrannu trwy gynnig ei sylw ar gynlluniau ac asesiadau. Mae yna drefn sefydledig o ran gweithgarwch a seilwaith ar gyfer casglu barn cynhyrchwyr bwyd a rhanddeiliaid |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Mae'r amlder y gofynion adrodd ar faterion diogelwch (*y cyflenwad)* bwyd a nodir yn y Bil yn annigonol. Rhaid paratoi a chyhoeddi'r adroddiad yn flynyddol neu bob dwy flynedd. | **Derbyn mewn Egwyddor**<br><br>Mae cymal 17 yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i adrodd ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd o leiaf unwaith bob pum mlynedd ond nid yw hynny'n ei rwystro rhag paratoi adroddiadau'n amlach pan welir bod angen. Rwy'n derbyn y gallai fod angen adroddiadau amlach o ystyried cyflymder y datblygiadau yn y maes. Bydd swyddogion yn monitro'r sefyllfa ac yn trafod â Defra pa mor aml y bydd angen adroddiadau o dan amgylchiadau gwahanol. |
| **Argymhelliad 3**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro a yw'n credu y byddai'n ddymunol paratoi adroddiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch (*y cyflenwad)* bwyd yng Nghymru er mwyn llywio datblygiad polisi bwyd. | **Gwrthod**<br><br>Mae bwyd amrwd, bwyd wedi'i brosesu neu ei weithgynhyrchu a'r cynhwysion a'r elfennau sydd eu hangen ar fwyd wedi'i brosesu a'i weithgynhyrchu ac i fagu anifeiliaid a thyfu cnydau, yn cael eu symud o gwmpas y DU heb ystyried ffiniau. Yr unig ffin ystyrlon i Gymru o ran diogelu'r cyflenwad bwyd yw ffiniau allanol y DU â gweddill y byd. Nid oes y fath gysyniad â 'chyflenwad bwyd Cymru' na 'diogelu cyflenwad bwyd Cymru' gan eu bod yn rhan annatod o gyflenwad bwyd a diogelwch cyflenwad bwyd y DU. Nid wyf o'r farn y byddai adroddiad o'r fath yn ddymunol gan na fyddai ystyr na gwerth iddo o ran cynhyrchu, prosesu, gweithgynhyrchu a gwerthu bwyd. |

| | |
|---|---|
| | Gallai adroddiad Cymreig gamarwain datblygwyr polisi bwyd, a byddai'n camgyfeirio adnoddau y gellid eu defnyddio fel arall i fynd i'r afael â chwestiynau ynghylch sut i wneud busnesau bwyd cynradd ac eilaidd Cymru yn fwy cynhyrchiol a chynaliadwy, sut i gryfhau a chynyddu llwybrau i'r farchnad, sut i ychwanegu at werth cynnyrch a sut i ateb y cwestiynau ynghylch lles y cyhoedd o ran deietau iachach a gwneud bwyd yn fwy fforddadwy i bobl sydd â llai o fodd. |
| **Argymhelliad 4**<br><br>Dylai'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraethau'r DU a Chymru gyhoeddi ymateb i'r adroddiad diogelwch *(cyflenwad)* bwyd, a chymryd camau priodol mewn perthynas ag ef. Os na fydd diwygiad i weithredu hyn yn digwydd neu os na chytunir arno, dylai'r Gweinidog ymrwymo i gyhoeddi ymateb i unrhyw fater yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Chymru a meysydd polisi datganoledig. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod gan y Senedd ddigon o gyfle i ystyried yr adroddiad ar ddiogelwch *(y cyflenwad)* bwyd a'r ymateb iddo. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwy'n cytuno y dylai fod yna ddisgwyl i Lywodraeth y DU ymateb i faterion a godir mewn adroddiad ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd ond nid wyf yn credu bod angen diwygiad. Fel y dywedais yn yr ymateb i argymhelliad 1, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gael parhau i fod ynghlwm wrth y gwaith o ffurfio ymateb y DU.<br><br>Yn fy marn i, nid oes angen diwygiad fyddai'n rhoi dyletswydd o'r fath ar Weinidogion Cymru gan fod Aelodau Senedd Cymru eisoes yn dwyn Gweinidogion i gyfrif ac yn craffu arnynt mewn llawer ffordd arall. Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud datganiadau o dro i dro i'r Senedd am y sector bwyd a diod ac am ein strategaeth a'n cynlluniau, ac fel rhan o hynny, byddaf yn cynnig sylw ar faterion sy'n ymwneud yn benodol ar ddiogelwch y cyflenwad bwyd yng Nghymru wrth iddynt godi. |
| **Trylowyder a thegwch yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth (Rhan 3)** | |
| **Argymhelliad 5**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro i ba raddau y mae wedi asesu effaith y darpariaethau ar ddelio teg i gynhyrchwyr bwyd yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog hefyd egluro a yw wedi ystyried y dylai busnesau nad ydynt yn cyrraedd trothwy trosiant penodol gael eu heithrio o rai gofynion mewn perthynas â chasglu data. | **Nodwyd**<br><br>Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at rai o'r problemau sy'n wynebu'r trefniadau contractyddol a geir ar hyn o bryd o fewn y diwydiant amaeth, yn y sector llaeth yn arbennig.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru ar y cyd â gweinyddiaethau eraill y DU newydd lansio cyd-ymgynghoriad i ystyried safbwyntiau ar gyflwyno contractau ysgrifenedig mandadol yn y diwydiant llaeth.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried effaith unrhyw gais am ddata ar fusnesau, yn unol â'r gofynion diogelu data perthnasol. |
| **Argymhelliad 6**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro a yw'n fodlon bod y darpariaethau delio teg wedi'u | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n fodlon bod y darpariaethau delio teg (cymal 27) wedi'u cynnwys fel pŵer galluogi yn |

| | |
|---|---|
| cynnwys yn y Bil fel pŵer galluogi yn hytrach na dyletswydd. | hytrach na dyletswydd, i'w harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yn caniatáu i Lywodraeth y DU ystyried a oes angen defnyddio'r pŵer i fynd i'r afael ag aamgylchiadau penodol anghydraddoldeb yn dilyn ymchwiliadau ac ymgynghoriadau, lle bo'n briodol, â'r diwydiant. |
| **Argymhelliad 7**<br><br>Dylai'r Gweinidog ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan randdeiliaid ynghylch y potensial i ymestyn pwerau Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser mewn perthynas â delio'n deg â chynhyrchwyr amaethyddol. | **Nodwyd**<br><br>Bydd y ddarpariaeth delio teg yn fecanwaith briodol ar gyfer ystyried agweddau ar ddelio'n deg â chynhyrchwyr amaethyddol. Cafodd cylch gwaith Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser ei adolygu yn 2018, a phenderfynwyd peidio â'i ymestyn, hynny am y byddai estyn ei chylch gwaith i gynnwys cyflenwyr anuniongyrchol yn y gadwyn bwyd-amaeth yn gwanhau gallu'r Dyfarnwr i weithio'n effeithiol. |
| **Materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad (Rhan 4)** | |
| **Argymhelliad 8**<br><br>Dylai'r Gweinidog nodi ei safbwynt ar briodoldeb y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth fel y corff a nodwyd i arwain y System Gwybodaeth am Dda Byw newydd, a rhoi rhesymau dros y safbwynt hwnnw. Yn benodol, dylai'r Gweinidog esbonio'n fanwl sut yr eir i'r afael â'r problemau mewn perthynas â diffyg atebolrwydd y Bwrdd hwnnw i Lywodraeth Cymru. | **Nodwyd**<br><br>Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (y Bwrdd) yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n atebol i Lywodraeth y DU, a'r Bwrdd yw'r corff sy'n gyfrifol am y prosiect amlrywogaeth yn Lloegr. Er nad yw'n uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru, mae Gweinidogion Cymru'n gyd-gyfrifol am benodiadau i'r Bwrdd yn ogystal ag am ardollau, cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ac am eu gosod ger bron Senedd Cymru.<br><br>Mae fy swyddogion yn cydweithio'n glos â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod y llywodraethu o safon uchel er mwyn diogelu data Cymru a buddiannau ceidwaid Cymru ym mhob cam. Byddaf yn ceisio sicrhau na chaiff data o Gymru eu casglu heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru a hynny dim ond pan fydd cytundebau rhannu clir wedi'u gwneud.<br><br>I'r perwyl hwn, mae fy swyddogion yn gweithio gyda Defra i ddiwygio cymal 32 y Bil, fel bod gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn aseinio swyddogaethau o dan y ddarpariaeth hon yng Nghymru. |
| **Argymhelliad 9** | **Nodwyd** |

| | |
|---|---|
| Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei dealltwriaeth o sut y bydd y System Adnabod Da Byw newydd yn rhyngweithio ag EIDCymru a'r gwaith mae'n ei wneud i sicrhau bod y ddwy system yn gydnaws. | Mae swyddogion o Livestock Information Limited yn ogystal â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon yn cydweithio i sicrhau bod ein priod systemau mor gydnaws â'i gilydd â phosibl a bod y trefniadau ar gyfer trosglwyddo adroddiadau o'r systemau gwartheg a moch Prydeinig presennol yn cael eu gwneud yn effeithiol i sicrhau'r safonau olrhain uchaf posibl.<br><br>Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis yn y pedair gweinyddiaeth i drafod y datblygiadau diweddaraf a datrys problemau cyffredin. Mae cyfres o grwpiau gorchwyl a gorffen hefyd yn cael eu cyflwyno. |
| **Argymhelliad 10**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd unrhyw gyllid newydd sy'n codi o'r ardoll cig coch yn cael ei ddefnyddio i ategu, yn hytrach na disodli cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Hybu Cig Cymru. | **Nodwyd**<br><br>Pennir pwrpas gwario'r arian a ddaw o'r Ardoll Cig Coch gan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn dweud yn benodol bod yn rhaid i'r corff ardoll drin taliad a wnaed iddo o dan y cynllun ailwladoli fel pe bai'n ardoll cig coch y mae ei hun wedi'i gasglu. (cymal 33(4))<br><br>Mae gwariant sy'n gysylltiedig â chyllid newydd sy'n codi o'r ardoll cig coch ar wahân i unrhyw geisiadau ychwanegol am arian a wneir gan Hybu Cig Cymru i Lywodraeth Cymru. |
| **Safonau marchnata, cynhyrchion organig a dosbarthu carcasau (Rhan 5)** | |
| **Argymhelliad 11**<br><br>Dylai'r Gweinidog nodi i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r darpariaethau ar gyfer y diwydiant organig sydd yn y Bil a sut y maent yn adlewyrchu ei dyheadau ar gyfer y sector yng Nghymru. | **Nodwyd**<br><br>Mae'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer cynnyrch organig yn angenrheidiol ar gyfer creu safonau organig Cymreig newydd ar ôl diwedd cyfnod pontio'r UE.<br><br>Mae fy swyddogion wedi gweithio'n glos â swyddogion Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i ddatblygu darpariaethau fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynnal integredd y sector organig yng Nghymru. |
| **Argymhelliad 12**<br><br>Dylai'r Gweinidog nodi ei safbwynt ar gyfwerthedd neu gydymffurfiaeth â rheoliadau organig yr UE a rhoi diweddariad ar sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU. | **Nodwyd**<br><br>Mae'r weinyddiaeth hon wedi'i gwneud yn glir iawn ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod cytundeb masnach rhwng Llywodraeth y DU a'r UE yn y dyfodol yn alinio â rheoliadau'r UE ac yn cynnal safonau uchel. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 13**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yn ceisio sicrhau nad yw safonau organig presennol Cymru yn cael eu tanseilio gan gytundebau masnach yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog nodi a yw'r Bil yn rhoi digon o ddiogelwch yn hyn o beth. | **Nodwyd**<br><br>Mae safonau organig Cymru gyda'r uchaf yn y byd a rhaid i hyn barhau. I ddiogelu ein safonau organig, mae fy swyddogion yn gweithio gyda Defra i ddiwygio cymal 37 o'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â chynhyrchion organig o dan gymal 36 os yw'r rheoliadau hynny'n gwneud darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru (a ddiffinnir trwy gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru). |
| **Argymhelliad 14**<br><br>Dylai'r Gweinidog nodi a yw'n credu y dylid cynnal safonau organig cyffredin ledled y DU. | **Nodwyd**<br><br>Byddai cynnal safonau organig cyffredin ledled y DU o fudd i'r diwydiant. Ond ni ddylai'r awydd am safonau organig cyffredin olygu bod Cymru'n gostwng ei safonau hithau.<br><br>Mae swyddogion wrthi'n trafod y mater â Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. |
| **Argymhelliad 15**<br><br>Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth bellach am gyfranogiad Llywodraeth Cymru yng ngrŵp organig y pedair gwlad, gan gynnwys ei bwrpas a'i aelodaeth. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar ei waith hyd yma. | **Nodwyd**<br><br>Mae swyddogion o bob un o weinyddiaethau'r DU yn aelodau o Weithgor Organig y Pedair Gwlad. Mae'n fforwm i drafod polisi a phynciau llosg yn y sector organig ac i gytuno ar safbwyntiau ar lefel swyddogol.<br><br>Gan fod y sector organig o dan bwysau newydd oherwydd Covid-19, mae'r Grŵp yn cynnal telegynadleddau wythnosol i gydgysylltu gwybodaeth ac ymatebion i'r argyfwng. |
| **Argymhelliad 16**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro a yw'n credu bod angen diwygio'r Bil i gynnwys mesurau diogelwch i sicrhau nad yw safonau'r farchnad yng Nghymru yn cael eu tanseilio gan fewnforion mewn unrhyw drefniadau masnach yn y dyfodol. Ymhellach, dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn. | **Nodwyd**<br><br>Rydym wedi bod yn glir o'r dechrau â Llywodraeth y DU na ddylai unrhyw gytundeb masnach danseilio ein deddfwriaeth ddomestig na'r safonau cynhyrchu a chynnyrch uchel sydd gennym yng Nghymru. Sgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 12 Mehefin i esbonio safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch iechyd a lles anifeiliaid ac am faterion Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion allweddol mewn cytundebau masnach yn y dyfodol. Mae diogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid yn bynciau datganoledig, ac mae polisi Llywodraeth Cymru'n glir bod yn rhaid cynnal safonau diogelwch bwyd, lles anifeiliaid ac amgylcheddol uchel yng Nghymru. |
| **Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (Rhan 6)** | |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 17**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch diwygio'r cymalau mewn perthynas â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth er mwyn cryfhau'r cytundeb dwyochrog. | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n fodlon o hyd bod y cytundeb yn rhoi mecanweithiau cryf i Weinidogion Cymru fynegi eu barn a sicrhau bod Senedd a Llywodraeth y DU yn ystyried y farn honno wrth ddelio â'r WTO.<br><br>Gofynnais i'r Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau ei ymrwymiad i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch defnyddio'r pwerau hyn a chafwyd datganiad ar hyn gan y Gweinidog perthnasol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Mai 2020.<br><br>Mae'n dda gennyf ddweud bod swyddogion o holl wledydd y DU yn cydweithio i baratoi'r rheoliadau a'r concordat sy'n rhoi grym i'r pwerau hyn. Megis dechrau mae'r gwaith hwn ar hyn o bryd ond gallaf gadarnhau bod LlyDU wedi gwrando ar farn y Gweinyddiaethau Datganoledig, ac mae LlC yn chwarae rhan amlwg o ran dylanwadu ar y gwaith o ddrafftio'r rheoliadau a'r concordat.<br><br>Rwyf wedi gofyn i swyddogion am yr wybodaeth ddiweddaraf a byddaf yn trafod hyn â'r Ysgrifennydd Gwladol os gwelaf fod angen. |
| **Argymhelliad 18**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch diwygio neu gryfhau'r cytundeb dwyochrog. | **Nodwyd**<br><br>Gweler yr ymateb i argymhelliad 17. |
| **Tenantiaethau amaethyddol (Atodlen 3)** | |
| **Argymhelliad 19**<br><br>Dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar denantiaethau amaethyddol, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Caiff y crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio Tenantiaethau Amaethyddol ei gyhoeddi mor fuan ag sy'n ymarferol o ystyried effeithiau'r COVID-19. |
| **Argymhelliad 20**<br><br>Dylai'r Gweinidog ymateb i'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid bod tenantiaeth amaethyddol yn gofyn am ei Fil Senedd ei hun yn y dyfodol. | **Nodwyd**<br><br>Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn rhoi dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru i baratoi rhaglen sy'n nodi'u bwriadau o ran gwneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch. |

| | |
|---|---|
| | Byddai'r cynigion i ddod â darnau gwahanol o gyfraith amaeth a meysydd polisi cysylltiedig, fel tenantiaethau amaethyddol, ynghyd ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) arfaethedig, yn cyfrannu at y broses o gryfhau a chodeiddio cyfraith Cymru, gan ei gwneud drwy hynny'n fwy hygyrch.<br><br>Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru bod gennym sector tenantiaid cryf yng Nghymru, gan ei fod yn cyfrif am 30% o'r holl dir sy'n cael ei ffermio. Ystyrir diwygio polisi tenantiaethau amaethyddol yng Nghymru wrth ddatblygu'r Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth (Cymru). Hynny fydd y fecanwaith i werthuso a oes angen newid deddfwriaethol i'r maes yng Nghymru yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 21**<br><br>Dylai'r Gweinidog esbonio pam mae rhai agweddau ar ddiwygio tenantiaeth wedi'u blaenoriaethu dros eraill i'w cynnwys ym Mil y DU. | **Nodwyd**<br><br>Yr agweddau ar ddiwygio tenantiaethau a gynigir yn y Bil yw'r rheini yr oedd rhanddeiliaid yn credu eu bod yn bosibl eu gwneud ac yn angenrheidiol i allu parhau i gefnogi'r sector. Cafodd y diwygiadau eu datblygu ar y cyd â Defra. |
| **Argymhelliad 22**<br><br>Dylai'r Gweinidog esbonio'r rhesymeg dros y darpariaethau ym Mil y DU sy'n berthnasol i ddaliadau Deddf 1986 ac nid daliadau Deddf 1995. Dylai'r Gweinidog nodi ei barn ynghylch a ddylid ymestyn y darpariaethau i gwmpasu daliadau Deddf 1995. | **Nodwyd**<br><br>Mae'r cytundeb a wneir o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (Deddf 1995) yn gytundebau modern masnachol a negodwyd yn fwy diweddar na'r rhai o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Deddf 1986). Maent hefyd yn tueddu i fod yn fyrrach ac yn cael eu hadolygu'n amlach na chytundebau Deddf 1986.<br><br>Mae hyn yn golygu bod tenantiaid sydd â chytundebau Deddf 1995 yn cael cyfle i drafod a newid amodau'u cytundebau. Nid yw cytundebau Deddf 1986 yn cynnig y cyfle hwnnw. |
| **Darpapriaethau sy'n ymwneud â Chymru (Atodlen 5)** | |
| **Recommendation 23**<br><br>Mae'r Pwyllgor wedi galw am sefydlu mecanwaith rhyng-lywodraethol i sicrhau cytundeb hirdymor ar gyfer ariannu amaethyddiaeth ledled y DU. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau â | **Nodwyd** |

| | |
|---|---|
| llywodraethau eraill y DU ar y mater hwn. | Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd eisoes wedi sefydlu mecanweithiau ar y cyd â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Ffocws allweddol y trafodaethau â nhw fydd sicrhau arian i amaethyddiaeth a'r sector gwledig ehangach yn lle'r arian a gollir. Mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr y Trysorlys, Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, fel yr wyf innau â'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am gadarnhad y bydd y cyllid a gawn yn llawn gymryd lle cyllid y Polisi Amaethyddol Cyffredinol a'r holl arian arall y bydd Cymru'n ei golli o ganlyniad i adael yr UE. |
| **Argymhelliad 24**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd yn darparu is-ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor sy'n deillio o'r Bil hwn yn y DU ar ffurf drafft a darparu digon o amser i'r Senedd graffu ar hyn. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwyf wedi ymrwymo i'r egwyddor o fod yn dryloyw ac i rôl ddilys y Senedd o ran craffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru. Rwy'n ymrwymo i osod is-ddeddfwriaeth ger bron y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 27. |
| **Argymhelliad 25**<br><br>Dylai'r Gweinidog nodi'r amgylchiadau lle mae'n rhagweld y byddai'r pwerau mewn perthynas ag ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol yn cael eu harfer. Ymhellach, dylai'r Gweinidog nodi pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau bod Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd o dan amgylchiadau o'r fath. Dylai'r Gweinidog hefyd nodi a fydd y darpariaethau'n berthnasol nid yn unig i broblemau tymor byr, ond hefyd i broblemau tymor hwy sy'n effeithio ar farchnadoedd amaethyddol. | **Nodwyd**<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau sydd ganddynt i ymyrryd yn y marchnadoedd amaethyddol pan fydd amodau'r marchnadoedd hynny'n eithriadol (Rhan 2 o Atodlen 5 y Bil). Hynny yw, pan geir aflonyddu mawr ar farchnadoedd amaethyddol neu fygythiad difrifol o aflonyddu mawr ar farchnadoedd amaethyddol ac y byddai'r aflonyddu hwnnw, neu'r bygythiad ohono, yn cael neu'n debygol o gael effaith andwyol difrifol ar gynhyrchwyr yng Nghymru o ran y prisiau y gellir eu cael am un neu fwy o gynhyrchion amaethyddol.<br><br>Pan fydd mesurau o'r fath yn cael eu hystyried, bydd pedair gweinyddiaeth y DU yn trafod â'i gilydd trwy Grŵp Monitro Marchnadoedd Amaethyddol y DU, fel ag a ddarperir trwy'r Fframwaith Cyffredin arfaethedig ar gyfer Cefnogi Amaethyddiaeth.<br><br>Nid yw'r trefniadau ar gyfer ymyrryd mewn marchnadoedd ond i'w defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol tymor byr ac nid fel mecanwaith cymorth tymor hir. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 26**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu fframweithiau cyffredin y DU mewn perthynas â safonau iechyd anifeiliaid. | **Nodwyd**<br><br>Mae fy swyddogion yn para i weithio gyda Defra a'r llywodraethau datganoledig eraill i ddatblygu fframwaith ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid. Maent wedi cyrraedd cam dau'r broses ac yn awr wrthi'n datblygu polisi manwl. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Gytundeb ar Amlinell y Fframwaith sy'n gosod allan y trefniadau a gynigir. |
| **Argymhelliad 27**<br><br>Mae'r Memorandwm yn nodi bod pryderon heb eu datrys o ran y darpariaethau yn y Bil ar gyfer adnabod ac olrhain anifeiliaid, tenantiaethau amaethyddol, a rheoleiddio cynhyrchion organig. Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl beth yw'r pryderon hynny a rhoi diweddariad ar y cynnydd wrth eu datrys. | **Nodwyd**<br><br>O ran adnabod ac olrhain anifeiliaid a rheoleiddio cynnyrch organig, rwy'n pryderu nad oes angen penodol ar i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru wrth arfer pwerau o dan y darpariaethau hyn. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i lunio diwygiadau i ychwanegu'r angen am gydsyniad ar wyneb y Bil. Esbonnir hyn yn fanylach yn argymhellion 8 ac 13.<br><br>Pan gafodd y Memorandwm ei gyflwyno, roedd angen nifer o ddiwygiadau technegol hefyd i sicrhau y gellir cyflwyno tagio electronig ar gyfer gwartheg lle bo'n briodol, ac i agor y drws ar gyfer cofnodion cyn symud. Cawsant eu gwneud yng Nghyfnod y Pwyllgor, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r pryderon ynghylch tenantiaethau amaethyddol yn ymwneud â chyfeirio ceisiadau sy'n destun anghydfod am ganiatâd landlordiaid neu i newid amodau at gymrodeddwyr neu drydydd parti, os yw'r ceisiadau hynny'n ymwneud â chais gan denant i gynllun cymorth ariannol. Credir y byddai'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a gaiff ei ddwyn ger bron yn nhymor nesa'r Senedd yn gyfrwng deddfwriaethol mwy priodol ar gyfer sicrhau bod ffermwyr tenant yng Nghymru yn cael mynediad at gynlluniau newydd. Rhoddir mwy o ystyriaeth maes o law i ba ddarpariaeth sydd ei hangen. |
| **Argymhelliad 28**<br><br>Dylai'r Gweinidog egluro sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau eang a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil, gan gynnwys mewn perthynas â | **Nodwyd**<br><br>Caiff yr holl bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan y Bil eu defnyddio mewn ffordd briodol, gyda'r nod o gefnogi ffermwyr a chynhyrchu bwyd yng Nghymru.<br><br>Caiff data eu casglu a'u rhannu yn unol â'r gofynion diogelu data perthnasol. Bydd angen |

| | |
|---|---|
| chasglu a rhannu data; ymyrraeth y farchnad; a safonau marchnata. | casglu data i gynnal y safonau iechyd anifeiliaid a phlanhigion ac i sicrhau y bydd unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn y marchnadoedd yn seiliedig ar dystiolaeth ddilysadwy, yn unol â'r gyfraith.<br><br>Ceir defnyddio'r pwerau i ymyrryd mewn marchnadoedd pan welir aflonyddu mawr ar farchnadoedd amaethyddol neu fygythiad difrifol o aflonyddu o'r fath, ac y byddai'r aflonyddu hwnnw, neu'r bygythiad ohono, yn cael neu'n debygol o gael effaith andwyol difrifol ar gynhyrchwyr yng Nghymru o ran y prisiau y gellir eu cael am un neu fwy o gynhyrchion amaethyddol. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys pandemig y Covid-19 a gall gynnwys tywydd eithafol, os ceir effaith andwyol sylweddol ar gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru o ran y prisiau y gallant eu cael am un neu fwy o gynhyrchion amaethyddol.<br><br>Caiff y pwerau dros safonau marchnata eu defnyddio i gynnal a gwella safonau uchel yn y gadwyn cyflenwi bwyd amaeth, i gadw bwyd yn ddiogel ac i gynnal hyder y defnyddiwr yn y bwyd a brynir yng Nghymru. |

Eitem 6.2

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-1999-20

Mike Hedges AS/MS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCCERA@senedd.wales

30 Mehefin 2020

Annwyl Mike

**Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21.**

Diolch am yr ystyriaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i rhoi i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21 a'i adroddiad arno.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa o ran craffu ar y Bil gan Senedd y DU a Senedd Cymru. Cynhaliwyd cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 22 a 24 Mehefin. Nodaf fod nifer bach o welliannau wedi'u gwneud ac, felly, byddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd. Bwriedir cynnal y Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Gorffennaf a chaiff y Bil ei gyflwyno wedyn i Dŷ'r Cyffredin.

Am fod amserlen Senedd y DU ar ei hôl hi oherwydd COVID-19, tybiwyd bod angen gohirio'r drafodaeth ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd, yr oedd disgwyl iddi gael ei chynnal ar 8 Gorffennaf. Fel yr amcangyfrif gorau, am nad yw'r dyddiadau ar gyfer pob un o'r camau nesaf yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'u cadarnhau eto, rwy'n disgwyl mai'r amser

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

priodol i gynnal y drafodaeth fydd ar ôl toriad yr haf – er mwyn ystyried unrhyw welliannau a wneir ar gam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

Cyn gynted â phosibl, byddaf yn adfer dyddiad ar gyfer y drafodaeth ar y cynnig cydsyniad ac yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i bob Aelod o'r Senedd roi ystyriaeth briodol i'w penderfyniad ynghylch cydsynio. Yn y cyfamser, rwyf wedi ystyried yr argymhellion ac wedi rhoi fy ymatebion yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Goblygiadau ariannol

Bil fframwaith yw hwn a bydd angen ystyried sut y byddwn yn rhoi'r swyddogaethau newydd ar waith, yng nghyd-destun gwaith ehangach Is-adran y Môr a Physgodfeydd. Lle y gall costau ychwanegol godi, byddant yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw hefyd at fy ymateb mewn perthynas ag Argymhelliad 4 sy'n esbonio bod swyddogion yn gwneud gwaith cynllunio ar gyfer y ffordd y caiff swyddogaethau newydd, gan gynnwys o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, eu cyflawni wrth inni adael cyfnod pontio'r UE.

Yr eiddoch yn gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (a gyhoeddwyd ar 21 Mai 2020): Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU.**

<table>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Ymateb Llywodraeth Cymru</th></tr>
<tr><td>Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Senedd gydsynio i'r darpariaethau ym Mil Pysgodfeydd y DU 2019-21, ar yr amod y bydd yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.</td><td>Derbyn<br><br>Croesewir eich argymhelliad y dylai Senedd Cymru gydsynio. O blith y 23 o argymhellion a wnaed gennych, rwyf wedi gallu derbyn 21. Os nad ydw i wedi gallu derbyn argymhelliad, rwyf wedi nodi fy rhesymau mor glir â phosibl.</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i Fil 2019-21 i gynnwys cymal machlud mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn unig.</td><td rowspan="2">Argymhelliad 2 – Gwrthod<br>Argymhelliad 3 – Derbyn<br><br>Byddaf yn ymateb i Argymhellion 2 a 3 gyda'i gilydd.<br><br>Fel arfer, ystyrir cymalau machlud pan fo amserlen glir ar gyfer dileu darpariaethau Cymreig a chyflwyno rhai newydd yn eu lle. Oherwydd yr ansicrwydd a'r anawsterau sy'n wynebu ein diwydiant, y negodiadau parhaus ynghylch pysgodfeydd a'r ansicrwydd ynglŷn â'n cydberthynas â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn y dyfodol, ni allwn fod yn sicr pa ymyriadau polisi newydd y bydd eu hangen o ganlyniad i hyn.<br><br>Fel y nodwyd gennych, yn gywir ddigon, ni allaf wneud unrhyw addewidion ynglŷn â rhaglen ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ychwaith. Ni all yr un llywodraeth glymu dwylo llywodraeth yn y dyfodol fel hyn. Bwriad y Llywodraeth hon yw cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn nhymor nesaf y Senedd. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodwyd uchod, ni allaf nodi amserlen gliriach ar hyn o bryd.<br><br>Mae angen inni sicrhau bod gennym yr adnoddau i reoli'r heriau sy'n wynebu ein diwydiant pysgodfeydd o ganlyniad i Brexit (a COVID-19 bellach), felly mae angen inni gadw'r pwerau hyn ym Mil y DU, cyhyd ag y gallai fod eu hangen arnom.<br><br>Felly, nid ydym am osod cymal machlud sy'n creu'r risg y collir pwerau allweddol i Gymru, drwy weithrediad awtomatig deddf. Rydym am gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru sydd wedi'i datblygu gan roi digon o amser i graffu arni a'i hystyried yn briodol. Nid wyf yn barod i geisio cymal machlud a allai roi diwydiant pysgota Cymru o dan anfantais o gymharu â gweddill y diwydiant yn y DU.<br><br>Gallaf eich sicrhau nad yw'n fwriad gennyf gael y pwerau hyn sydd mewn Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU am fwy o amser nag sydd ei angen a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad 3. Os yw'r Gweinidog o'r farn nad oes angen cymal machlud, dylai'r Gweinidog nodi sut y gall gyflawni ei hymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru.</td></tr>
</table>

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | Pwyllgor am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog nodi'r amcangyfrifon diweddaraf o newidiadau i nifer a phroffil y staff yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd a'r cymorth cyfreithiol cysylltiedig y bydd ei angen o ganlyniad i Fil 2019-21. | **Derbyn**<br><br>Mater i'r gwasanaeth sifil yw staffio. Mae swyddogion yn gwneud gwaith cynllunio ar gyfer y ffordd y caiff swyddogaethau newydd, gan gynnwys o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, eu cyflawni wrth inni adael cyfnod pontio'r UE. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae'n rhy gynnar i ddweud, ar hyn o bryd, beth fydd cwmpas a maint unrhyw newid. Dylai'r darlun fod yn gliriach pan fyddwn yn deall ein cydberthynas â'r UE yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog esbonio sut y bydd yr amcan o ran newid yn yr hinsawdd, fel y'i nodir ym Mil 2019-21, yn cyd-fynd â pholisïau newid hinsawdd ehangach Llywodraeth Cymru. | **Derbyn**<br><br>Diolch am yr argymhelliad hwn. Rwy'n fodlon ei dderbyn. Mae'n hollbwysig ein bod yn darparu safbwynt cydgysylltiedig o ran ein hymateb i newid yn yr hinsawdd, y polisïau a roddwn ar waith a'r camau a gymerwn.<br><br>Y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd fydd y mecanwaith a ddefnyddir gennym i nodi ein polisïau ar gyfer cyflawni'r amcan hwn a'r holl amcanion pysgodfeydd. Drwy'r broses o ddatblygu'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, byddwn yn cydweithio â phob rhan o Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'n rhanddeiliaid ac, yn ddiau, byddwn yn cysoni ein polisïau er mwyn darparu set gadarn o bolisïau sy'n dangos sut y caiff yr amcan hwn ei gyflawni. |
| **Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog, ynghyd â'r awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill, ymrwymo i ystyried ymhellach sut y gellir cynnwys dyletswydd mewn perthynas â'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf ym Mil 2019-21. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn amlinellu atebion sydd wedi'u hystyried, yn enwedig a allai geiriad Erthygl 33 o reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin leddfu ei phryderon. | **Derbyn**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant pysgota ac ymchwilwyr gwyddonol, yn ogystal â phob parti arall â diddordeb, er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'u bod yn helpu i sicrhau bod moroedd Cymru yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy.<br><br>Mae ein pysgodfeydd yn adnoddau naturiol gwerthfawr ac rydym yn llwyr ymrwymedig o hyd i sicrhau y caiff stociau eu diogelu, gan sicrhau eu bod yn dod â'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i gymunedau arfordirol a thu hwnt ar yr un pryd. Mae pob un ohonom am weld pysgodfeydd cynaliadwy, a Chynnyrch Cynaliadwy Mwyaf yw'r safon ryngwladol ar gyfer asesu cyflwr stociau. Fel Llywodraeth, rydym yn ymrwymedig i sicrhau pysgota ar lefelau islaw'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf fel y cynghorir gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES), lle y bo'n briodol.<br><br>Gan gydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y ffaith nad oes dyletswydd mewn perthynas â'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf ar wyneb y Bil, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dull gweithredu yn seiliedig ar gynlluniau rheoli pysgodfeydd. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiad mewn perthynas â'r Cynnyrch |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | Cynaliadwy Mwyaf a wnaed o fewn yr amcanion eu hunain. Rwy'n disgwyl i'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd nodi ein hymrwymiad i'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a gosod targedau, lle y bo'n briodol.<br><br>Cafwyd trafodaeth helaeth ynghylch y pwynt hwn gyda Defra a'r gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill ac nid wyf o'r farn y byddai deialog bellach, ar y cam hwn yn y broses, yn ddefnyddiol nac yn llwyddo i newid y dull gweithredu.<br><br>Fodd bynnag, byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn amlinellu'r atebion a ystyriwyd a rôl Erthygl 33. |
| **Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog ymrwymo i ystyried a ddylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol, i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd fel y'u nodir ym Mil 2019-21. Dylai'r Gweinidog esbonio pam na chynhwyswyd y mater hwn yn y ddogfen ymgynghori, Brexit a'n Moroedd. | **Derbyn**<br><br>Rwy'n fodlon ailddatgan fy mwriad i ystyried a yw'n briodol cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.<br><br>Brexit a'n Moroedd oedd dechrau sgwrs barhaus â'n rhanddeiliaid yng Nghymru, a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisi pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol. Ymgynghoriad eang ydoedd ac, oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y diwydiant pysgota ar y pryd, nid dyna oedd yr adeg gywir yn y broses i godi'r pwynt penodol hwn.<br><br>Mae'r amcanion pysgodfeydd wedi datblygu dros amser, mewn cydweithrediad â phob un o'r pedair gweinyddiaeth pysgodfeydd, ac maent bellach yn wahanol i'r rhai yn y fersiwn flaenorol o'r Bil. Petawn wedi ymgynghori arnynt, ni fyddent wedi bod yr un peth â'r amcanion sydd bellach yn y Bil. Yr adeg briodol i ystyried hyn yw yng nghyd-destun y broses o ddatblygu Bil Pysgodfeydd i Gymru, pan fyddwn yn gwybod yn bendant beth yw amcanion terfynol Bil y DU.<br><br>Gohiriwyd cyhoeddi'r ymateb i ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd oherwydd pandemig COVID-19. Rwy'n adolygu'r ymateb yng ngoleuni'r pandemig a'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â phontio o'r UE. |
| **Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni'r ymrwymiadau a wnaeth mewn ymateb i'n hadroddiad blaenorol mewn perthynas â'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn cynnwys cerrig milltir a | **Derbyn**<br><br>Diolch. Rwyf wedi nodi'r ymrwymiad a wnaed yn flaenorol ac, fel o'r blaen, rwy'n ymrwymedig o hyd i bennu cerrig milltir a gosod targedau penodol ac uchelgeisiol, lle y bo'n briodol, ac ar ôl ystyried gyda rhanddeiliaid, yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| thargedau uchelgeisiol. | |
| **Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o ddatblygu'r rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn llywio cynnwys y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. | **Derbyn**<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Gorffennaf 2019, fel man cychwyn ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â chyflawni'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Yn dilyn saib angenrheidiol oherwydd pandemig COVID-19, mae gwaith wedi dechrau ar lefel rynglywodraethol i ailgwmpasu gwaith datblygu'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, gan ystyried yr amgylchiadau newydd rydym ynddynt a chynllunio ar gyfer yr elfennau ymgysylltu â rhanddeiliaid hollbwysig.<br><br>Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, rydym yn gwneud cynlluniau ar gyfer cyfnod o ymgysylltu anffurfiol, ymgynghoriad cyhoeddus llawn, ac wrth, y gwaith craffu gan bob deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig. O ran amseriadau, yn seiliedig ar y Bil drafft presennol, mae angen cyhoeddi'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd o fewn 18 mis i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ac mae'r cynlluniau yn cael eu hystyried yn unol â hynny. Rwy'n gobeithio y byddaf yn gallu rhannu gwybodaeth fanylach â rhanddeiliaid yn fuan. |
| **Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog roi sicrwydd, drwy'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl stociau yn nyfroedd Cymru yn gynaliadwy, nid dim ond y rhai y mae gan Gymru fuddiannau pysgota gweithredol ynddynt. | **Derbyn**<br><br>Rydym yn ymrwymedig i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy yn nyfroedd Cymru a gweithio gydag eraill rydym yn rhannu stociau â nhw, nid dim ond canolbwyntio ar y rhai y mae gan Gymru fuddiannau pysgota gweithredol ynddynt. Drwy'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, bydd ein polisïau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn nodi dull hirdymor o reoli ein pysgodfeydd a'n stociau pysgod er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| **Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog roi sicrwydd y bydd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn nodi camau gweithredu ac amserlenni ar gyfer adfer stociau, lle mae stociau islaw lefelau cynaliadwy. | **Derbyn**<br><br>Er nad yw manylion y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd wedi'u cadarnhau eto, rwyf o'r farn ei bod yn hollol resymol i Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd nodi camau gweithredu ac amserlenni ar gyfer adfer stociau (pan fo angen a lle y bo'n briodol). Mae pysgodfeydd y môr yn stociau naturiol sy'n amrywio'n naturiol ac mae bron pob un ohonynt yn cael eu rhannu ar draws ffiniau moroedd. Felly, ni fydd yn fater o “un ateb i bob dim” wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.<br><br>Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o ymdrin â stociau'r DU, gan gymryd cyngor gan wyddonwyr pysgodfeydd, rheolwyr pysgodfeydd a physgotwyr eu hunain. |
| **Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog nodi i ba raddau y mae'n rhagweld y bydd | **Derbyn**<br><br>Ymdrinnir â'r mater hwn yn y datganiad ynglŷn â Chynlluniau |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
| --- | --- |
| Llywodraeth Cymru yn gallu dibynnu ar gyrff sy'n bodoli eisoes i ddarparu data gwyddonol er mwyn llywio Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ac a fydd angen i Lywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil newydd ac ychwanegol. | Rheoli Pysgodfeydd yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Am nad ydym wedi nodi eto pa gynlluniau fydd eu hangen, ni ellir dweud pa ymchwil newydd neu ychwanegol y gallai fod ei hangen.<br><br>Mae ICES yn rhoi amrywiaeth o gyngor yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth a gesglir gan nifer o sefydliadau a gwladwriaethau arfordirol. Mae'r DU wedi bod yn cynnal trafodaethau ag ICES ac rydym yn disgwyl i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU ac ICES ddod yn weithredol ar ôl diwedd y cyfnod pontio.<br><br>Er y gall ICES roi cyngor ar gyflwr nifer o stociau, nid yw'n ystyried y rhywogaethau sydd o'r pwys pennaf i bysgotwyr yng Nghymru. O ganlyniad, bydd angen casglu tystiolaeth bellach yn barhaus er mwyn i Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd allu cael eu hymestyn y tu hwnt i'r stociau traddodiadol sydd o bwys i'r UE.<br><br>Mae'r fersiwn ddrafft o Gynllun Pysgodfeydd a Thystiolaeth Dyframaethu Cymru 2019-2021 yn nodi'r agenda ymchwil gydweithredol ar gyfer pysgodfeydd y môr, pysgodfeydd ymfudol a physgodfeydd dŵr ac ymchwil dyframaethu a monitro a dadansoddi dyframaethu. Byddwn yn adeiladu ar hyn ac, os bydd angen tystiolaeth ychwanegol, bydd hyn yn rhan o'r dull strategol o ymdrin â gwyddoniaeth a thystiolaeth yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd. |
| **Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Systemau Monitro Cychod ar gyfer pob cwch pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru. | **Derbyn**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi contract ar gyfer darparu system monitro cychod ar gyfer fflyd bysgota Cymru o dan 12 metr. Ar hyn o bryd, mae'r cyflenwr yn adeiladu'r dyfeisiau ond bu rhywfaint o oedi oherwydd COVID-19. Bydd y gwaith o osod y dyfeisiau hyn ar gychod pysgota o Gymru yn dechrau pan fydd yn briodol gwneud hynny gan gydymffurfio â chyfyngiadau COVID-19. Ar hyn o bryd, rhagwelir y caiff y ddeddfwriaeth berthnasol (OS) ei chyflwyno yn ystod haf 2021. |
| **Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru asesu goblygiadau ariannol gwneud teledu cylch cyfyng (CCTV) ar fwrdd cwch yn ofyniad i gael trwydded a dylai gyhoeddi canlyniadau'r asesiad hwnnw. | **Gwrthod**<br><br>Defnyddir teledu cylch cyfyng gan rai gweinyddiaethau mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Lanio. Mae maint y rhan fwyaf o gychod yn fflyd Cymru yn golygu bod hwn yn fesur anghymesur y mae costau uchel yn gysylltiedig ag ef. Rydym wedi canolbwyntio ein hymdrech/adnoddau ar feysydd rydym ar ddeall eu bod yn fwy buddiol o ran rheoli pysgodfeydd Cymru. Dylai unrhyw ddefnydd o adnoddau rheoli fod yn seiliedig ar risg ac mae'r rhan fwyaf o fflyd Cymru yn risg isel. Lle mae'r nifer bach o gychod mawr o Gymru yn gweithredu mewn pysgodfeydd a rennir â'r DU neu wladwriaethau arfordirol eraill, byddaf yn ystyried dull gweithredu cyson gyda gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer teledu cylch cyfyng neu adnoddau monitro electronig o bell |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | eraill.<br><br>Mae'r System Monitro Cychod (VMS) a'r System Cofnodi Electronig (ERS – Mae'n ofynnol i holl gychod yr UE sy'n fwy na 12 metr o hyd gyflwyno cofnodion pysgota dyddiol y mae cyrff gorfodi yn cael mynediad atynt o bell er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Mae'r system hon yn debygol o gael ei gyflwyno i'r sector 10-12 o fewn y 18-24 mis nesaf) wedi'u defnyddio ers tro byd ar gyfer y fflyd bysgota dros 12 metr ac, fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 13, mae gwaith yn mynd rhagddo ar roi OS ar waith er mwyn cyflwyno System Monitro Cychod ar gyfer fflyd bysgota Cymru o dan 12 metr.<br><br>At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Pysgodfeydd y DU ar amrywiaeth o fesurau er mwyn sicrhau bod pysgodfeydd yn cydymffurfio'n well â deddfwriaeth a'u monitro'n well. Mae'r rhain yn cynnwys ap Cofnodi Dalfeydd er mwyn i gychod o dan 10 metr gofnodi eu dalfa. Fe'i cyflwynwyd yn gynharach eleni. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar system newydd i swyddogion gorfodi gofnodi ymchwiliadau a fydd yn symleiddio ac yn gwella'r gwaith hwn. |
| **Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog esbonio i'r Senedd a ymdriniwyd â'i phryderon ynghylch Cymal 23, sy'n gyfystyr â mater 'llinell goch' iddi. | **Derbyn**<br><br>Erys hwn yn fater 'llinell goch' am ei fod yn hollbwysig bod y pŵer hwn yn cael ei arfer mewn ffordd sy'n parchu'r setliad datganoli. Rwy'n fodlon y bydd y cytundeb rydym wedi dod iddo â Llywodraeth y DU yn cyflawni'r canlyniad hwn ac yn atgyfnerthu'r arferion gwaith rhynglywodraethol, sydd eisoes yn gryf ac yn wahaniaethol, sydd ar waith ym maes rheoli pysgodfeydd.<br><br>Mae a wnelo'r cytundeb a geisir â'r ffordd y caiff swyddogaeth a gedwir yn ôl (yng nghymal 23) ei chyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig.<br><br>Rydym wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU i nodi ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU, neu lwybr amgen os byddwn ein dwy yn cytuno ei fod yn fwy addas, fwy o fanylion am y defnydd bwriadedig o'r pŵer yng nghymal 23 a fydd yn cynnwys atgyfnerthu prosesau ymgynghori. Darparais gopi o'r llythyr oddi wrth Victoria Prentis AS sy'n ailddatgan yr ymrwymiad hwn, yn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 1 Mai. |
| **Argymhelliad 16.** Ni ddylai'r Gweinidog gyflwyno'r cynnig i gydsynio i'r darpariaethau ym Mil 2019-21 nes y bydd Aelodau'r Senedd wedi gallu ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â Chymal 23. | **Derbyn**<br><br>Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Rydym yn pwyso am i gynnydd gael ei wneud o ran y mater hwn, a'm bwriad yw y caiff yr Aelodau gyfle i fwrw golwg dros y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mewn perthynas â chymal 23, cyn eu penderfyniad ynghylch cydsynio. |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau a gynhaliwyd â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill mewn perthynas ag adolygiad o'r Concordat Pysgodfeydd. | **Derbyn**<br><br>Rwy'n fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn. Mae'r Concordat Pysgodfeydd wedi'i drafod yng nghyfarfodydd gweithgorau traws-weinyddiaeth lefel swyddogol a chaiff ei ystyried yng nghyd-destun ein cydberthnasau â'r UE yn y dyfodol a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU.<br><br>Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd trafodaethau rhwng y gweinyddiaethau wedi symud yn eu blaen. |
| **Argymhelliad 18.** Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau y caiff unrhyw elw o werthu hawliau pysgota ei ddefnyddio i gynnal cymunedau arfordirol a'r amgylchedd morol. Dylid ymgynghori'n helaeth er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynllun perthnasol. | **Derbyn**<br><br>Dylid defnyddio unrhyw elw o werthu unrhyw hawliau pysgota i gynnal cymunedau arfordirol a'r amgylchedd morol, yn ogystal â'r diwydiant pysgota ei hun.<br><br>Gallai defnyddio'r pŵer gynhyrchu refeniw y gellid ei ailfuddsoddi yn niwydiant pysgota Cymru, a'r cymunedau a gynhelir ganddo, er mwyn eu helpu i addasu a manteisio ar y cyfleoedd pysgota ychwanegol hyn yn y dyfodol.<br><br>Rwy'n cytuno y dylai fod proses lawn a chadarn o ymgysylltu â'r cyhoedd, cydweithio ac ymgynghori â'r cyhoedd, os cyflwynwn gynllun o'r fath, ac y bydd yna broses o'r fath ar waith. Bydd angen i'r cynllun hefyd ystyried unrhyw ofynion ariannol a gweithredol angenrheidiol ar y pryd. |
| **Argymhelliad 19.** Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau y caiff y cynlluniau cymorth ariannol i Gymru sy'n deillio o Fil 2019-21 eu hategu gan yr amcanion pysgodfeydd. | **Derbyn**<br><br>Gallaf ymrwymo i hyn.<br><br>Bwriedid i unrhyw gynlluniau cyllido sy'n deillio o'r pwerau cymorth ariannol yn y Bil hyrwyddo'r broses o fodloni gofynion megis Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Statws Amgylcheddol Da, yn ogystal â chefnogi economïau lleol a chymunedau arfordirol. Bydd unrhyw gynllun cymorth ariannol i Gymru hefyd yn gyson â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys yr Amcanion Pysgodfeydd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi'r polisïau sydd ar waith gennym i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Bydd hyn yn cynnwys ein dull o gefnogi'r diwydiant yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 20.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran datblygu ei chynlluniau cymorth ariannol, gan gynnwys pryd mae'n disgwyl i gynigion gael eu cyflwyno er mwyn | **Derbyn**<br><br>Rwy'n fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud. Mae cynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol yn cael eu trafod ar lefel swyddogol ym mhob un o weinyddiaethau'r DU. Fodd bynnag, bu oedi oherwydd COVID-19.<br><br>Bydd yn rhaid i unrhyw gynllun cymorth ariannol yn y dyfodol weithredu yn yr amgylchedd masnachol a gwleidyddol newydd y tu |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| ymgynghori arnynt. | allan i'r UE a bydd yn dibynnu ar drefniadau newydd ar gyfer pysgodfeydd a masnach. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd y trafodaethau wedi symud yn eu blaen.<br><br>Fy mwriad yw y caiff ymgynghoriad ei gynnal yn 2021 ar gynigion ar gyfer cynllun cymorth ariannol.<br><br>Amser a ddengys sut y bydd yr ymateb i COVID-19 yn effeithio ar ein cyllideb i ddarparu cymorth ariannol. |
| **Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai fod gan unrhyw gychod newydd a brynir gan ddefnyddio arian o gynlluniau cymorth ariannol, dechnolegau i wella cynaliadwyedd a gweithgarwch monitro (gan gynnwys cylch teledu cyfyng a dyfeisiau lleihau sgil-ddalfeydd ond heb fod yn gyfyngedig iddynt). | **Derbyn**<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn y gellir prynu cwch gan ddefnyddio arian cyhoeddus, am ei bod yn bwysig nad yw ymyriadau cyhoeddus yn arwain at orbysgota stociau. Yn gyffredin â gweinyddiaethau eraill yn y DU, ar hyn o bryd nid wyf yn caniatáu i unrhyw drwyddedau cwch ychwanegol gael eu rhoi ar ben y rhai sy'n bodoli eisoes. Rwy'n disgwyl i'r sefyllfa hon barhau ac mae'n annhebygol y caiff cychod newydd eu prynu yn y dyfodol agos.<br><br>O ganlyniad, nid yw'n fwriad gennyf hwyluso'r broses o brynu cychod newydd drwy gynlluniau cymorth ariannol. Fodd bynnag, pe bai'r amgylchiadau yn newid a phe bai hynny'n digwydd, credaf y byddai'n hollol resymol gosod y math o amodau a awgrymir ar unrhyw gymorth o'r fath.<br><br>Bydd angen i unrhyw gynllun cymorth ariannol hirdymor yn y dyfodol gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, wrth gwrs, bydd yn destun ymgynghoriad llawn, a fydd yn rhoi cyfle i faterion fel hwn gael eu hystyried yn llawn ac i unrhyw amodau priodol gael eu gosod ar gymorth ariannol. |
| **Argymhelliad 22.** Dylai'r Gweinidog egluro i ba ddiben y mae'n ceisio pwerau i gyflwyno taliadau ac o dan ba amgylchiadau y mae'n rhagweld y bydd yn eu defnyddio. Dylai unrhyw gynigion sy'n deillio o'r darpariaethau hyn fod yn destun ymgynghoriad ac asesiad cynhwysfawr o'r effaith ariannol. | **Derbyn**<br><br>Mae'r pŵer hwn yn sicrhau ein bod yn gyson â phob gweinyddiaeth yn y Bil, gan roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod taliadau am gyflawni swyddogaethau penodol.<br><br>Mae'r pŵer wedi'i gyfyngu i “Swyddogaeth forol berthnasol” sy'n golygu swyddogaeth sy'n ymwneud â'r canlynol—<br>(a) cwotâu pysgota;<br>(b) sicrhau bod gweithgareddau pysgota masnachol yn cael eu cynnal yn gyfreithlon; (c) cofrestru prynwyr a gwerthwyr pysgod gwerthiant cyntaf;<br>(d) tystysgrifau dalfeydd ar gyfer mewnforio ac allforio pysgod.<br><br>Hoffwn nodi'n glir iawn, ar hyn o bryd, nad oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno unrhyw daliadau o dan y pŵer hwn. Felly, ni allaf roi unrhyw amgylchiadau lle y gallwn ddefnyddio'r pŵer hwn ac eithrio'r prif feysydd am y byddai unrhyw gynigion yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â'r diwydiant pysgota a rhanddeiliaid ehangach. |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | Mae'n bwysig ein bod yn gallu adennill y costau i'r cyhoedd lle mae diwydiannau ac unigolion yn elwa ar ddefnyddio adnoddau naturiol cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud hyn mewn ffordd deg a chynaliadwy, ar ôl ymgynghori a chynnal asesiad cynhwysfawr o'r effaith ariannol. Oherwydd effaith COVID-19 a'r posibilrwydd na ddeuir i unrhyw gytundeb â'r UE ar ddiwedd y flwyddyn, mae'n debygol na fydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio am beth amser eto.<br><br>O ganlyniad, rwy'n cytuno'n llawn ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol iawn bod unrhyw gynigion sy'n codi yn destun ymgynghoriad ac asesiad cynhwysfawr o'r effaith ariannol. |
| **Argymhelliad 23.** Dylai'r Gweinidog nodi pa gyfleoedd a fydd ar gael i'r Senedd a rhanddeiliaid ystyried Gorchmynion a wneir o dan bwerau eang adrannau 134A a 134B o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 9 i Fil 2019-21, a chraffu arnynt. | **Derbyn**<br><br>Bydd adran 135 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, fel y'i diwygiwyd gan Fil Pysgodfeydd y DU, yn darparu i bob gorchymyn a wneir o dan adrannau 134A a 134B gael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru, gan sicrhau bod popeth yn agored ac yn dryloyw.<br><br>At hynny, mae Gorchmynion a wneir o dan adran 134A a 134B, yn ddarostyngedig i ofynion ymgynghori, oni bai eu bod yn cael eu hystyried yn orchmynion brys. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu unrhyw bolisi newydd ac yn cymhwyso polisi ymgynghori Llywodraeth Cymru wrth arfer y pwerau hyn, yn y ffordd arferol. Byddwn yn fodlon ysgrifennu at y Pwyllgor cyn unrhyw ymgynghoriad o'r fath.<br><br>Ar gyfer gorchmynion brys, nid yw'r gofynion ymgynghori yn gymwys. Mae hyn oherwydd eu natur frys. Fodd bynnag, mae'r gofynion hysbysu yn gymwys o hyd a chaiff unrhyw Orchymyn ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru er mwyn ei ddwyn i sylw unrhyw unigolyn y mae'n debygol y bydd yn effeithio arno, a gall y bobl hynny gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru. |

# Eitem 6.3

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/0821/20

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a
Materion Gwledig Senedd Cymru

Annwyl Mike,

24 Mehefin 2020

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Reoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2018, ymrwymais i ail-ystyried y targed presennol ar gyfer 2050 ac adrodd yn ôl i'r Senedd cyn pennu y drydedd gyllideb garbon. Ym mis Mai y llynnedd cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei argymhellion i Gymru gynyddu ei tharged ar gyfer 2050 i 95% o leiaf. Yn fuan wedyn derbyniais yr argymhelliad yn gyhoeddus a chyhoeddais fy mwriad i gyflwyno rheoliadau yn y Senedd i ddiwygio'r targed presennol yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

Ym mis Rhagfyr 2019 ysgrifennais at y Pwyllgor Newid Hinsawdd i ofyn am eu cyngor ynghylch sut mae newid targed 2050 yn cael effaith ar y targedau dros dro a'r ail gyllideb carbon a osodwyd gan y Senedd yn 2018. Gofynnais hefyd am gyngor ynghylch lefel y drydedd gyllideb garbon ac opsiynau o ran sut y gallai Gymru fynd y tu hwnt 95% i gyrraedd sero-net. Gyda'n cefnogaeth cysylltodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd gyda rhanddeiliaid mewn digwyddiadau yn Llandudno a Chaerdydd ym mis Ionawr, gan roi'r cyfle i gyfrannu at a dylanwadu ar gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ynghylch y lefel y dylid gosod y targedau a'r cyllidebau newydd.

Rydym yn bwriadu cysylltu ymhellach gyda rhanddeiliaid yn y misoedd nesaf i edrych ar yr effaith y gallai Cymru ei ddisgwyl os oedd y cynnydd yn nhymheredd cyfartalog y byd yn cael ei gyfyngu i 1.5ºC, o gymharu â 2ºC. Yn y cyngor y llynedd dywedodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd bod cyrraedd targed sero-net yn y DU, a'r argymhelliad ar gyfer 95% yng Nghymru, yn sicrhau cyfle gwell na 50% o gyfyngu ar y cynnydd cyfartalog byd-eang mewn tymheredd o 1.5 ºC, os caiff hyn ei gyflawni ledled y byd. Mae llwybr presennol Cymru i leihau allyriadau yn cyd-fynd mwy â chynnydd o 2ºC. Caiff rhanddeiliaid gysylltu hefyd drwy y broses ymgynghori ar y polisïau cyfranogi, sy'n datblygu i helpu i fodloni ein hamcanion uchelgeisiol ar gyfer yr hinsawdd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi ymrwymo i gyhoeddi eu cyngor ym mis Medi ond maent wedi cyhoeddi newidiadau ers hynny i'w rhaglen waith yn 2020 yn dilyn pandmeig Covid-19, ac wedi penderfynu oedi tan fis Rhagfyr cyn cyhoeddi eu cyngor. O ganlyniad, rwy'n ystyried bod yn well gosod y rheoliadau ar bennu y drydedd gyllideb carbon a diwygio'r llwybr lleihau allyriadau ehangach yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn hytrach nag eleni yn ôl fy mwriad.

Wedi ystyried barn y Cabinet o gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd a chanlyniadau ein gweithgarwch cysylltu, byddaf yn cyflwyno y rheoliadau drafft ym mis Chwefror cyn cael amser yn y cyfarfod llawn ddechrau mis Mawrth. Rwy'n gobeithio y byddwch chi a'ch Pwyllgor yn deall y rhesymau dros yr amserlen newydd hon.

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deisebau**
—
Welsh Parliament
**Petitions Committee**

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2020

Annwyl Mike

**P-05-865 Dylid gwarantu bod dewisiadau sy’n seiliedig yn llwyr ar blanhigion ar bob bwydlen y sector cyhoeddus, i ddiogelu hawliau figaniaid ac er budd ein hiechyd, yr amgylchedd ac anifeiliaid**

Ystyriodd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb uchod yn fwyaf diweddar yn ein cyfarfod ar 9 Mehefin, ochr yn ochr â sylwadau pellach gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'r Deisebydd.

Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, ac wrth wneud hynny i ysgrifennu atoch chi i ofyn i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig ystyried mater opsiynau fegan fel rhan o'u hadolygiad o'u hadroddiad **Ailfeddwl am fwyd a diod yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd.**.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan yn:
**https://business.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=24392**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost uchod, neu ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir

Janet

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd/Chair

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDeisebau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPetitions@senedd.wales
0300 200 6565